

---

# Amlygrwydd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig

Adroddiad ar hwylustod canfod gwasanaethau iaith  
Gymraeg a gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth  
cyhoeddus a theledu lleol eraill

Atodiad Cymru

---

# Gair am y ddogfen hon

---

Roedd Deddf Economi Ddigidol 2017 yn ychwanegu dyletswydd at Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a oedd yn mynnu bod Ofcom, o bryd i'w gilydd, yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn delio â'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gan gyfeiryddion rhaglenni electronig am sianeli gwasnaethau cyhoeddus a chynnwys fideo ar-alwad gan y darlledwyr hyn a mynediad at y cynnwys hwnnw.

Mae'r adroddiad yma hefyd yn sôn am y sianeli gwasanethau cyhoeddus sydd ar gael a pha mor hawdd ydy dod o hyd iddyn nhw (hy y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli teledu lleol hynny sydd â hawl i gael lle amlwg) a chynnwys fideo ar-alwad sy'n cael ei ddarparu gan y darlledwyr hyn ar draws amrywiaeth o lwyfannau a dyfeisiau. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r sefyllfa yng Nghymru, gan fod sefyllfa Cymru yn unigryw oherwydd safle hanesyddol S4C ar EPGs ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn benodol. Mae adroddiad ar gyfer y DU wedi cael ei baratoi hefyd.<sup>1</sup>

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi lansio ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod ar ddarparu cyfeiryddion rhaglenni electronig a dewisiadau ar gyfer rheoleiddio amlygrwydd gwasanaethau fideo ar-alwad yn y dyfodol.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Amlygrwydd EPG: Adroddiad ynghylch pa mor hawdd ydy dod o hyd i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/epg-prominence>

<sup>2</sup> Adolygiad o'r drefn amlygrwydd: Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG llinol a dyfodol y drefn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/epg-code-prominence-regime>

# Argaeledd a hwylustod canfod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys teledu lleol yng Nghymru

## Cyflwyniad

**Mae Ofcom wedi rhoi cod ymarfer ar waith ar gyfer darparu cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs). Mae'r Cod yn mynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sianeli teledu lleol yn cael “amlygrwydd y mae Ofcom yn credu sy'n briodol”**

- 1.1 Mae cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) yn wasanaethau sy'n cynnwys rhestri o raglenni neu sy'n hyrwyddo rhaglenni sy'n cael eu cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio<sup>3</sup>, sy'n rhoi cyfleuster i gael gafael ar y gwasanaethau sy'n cael eu rhestru neu eu hyrwyddo yn y canllaw.<sup>4</sup> Maen nhw'n ddewislenni ar y sgrin o sianeli a/neu raglenni sy'n galluogi gwylwyr a gwrandawyr i glicio drwyddo i raglen o'u dewis drwy ddefnyddio eu teclyn rheoli o bell. Mae darparwyr EPGs sy'n cael eu darlledu neu eu trosglwyddo mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cynnwys gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy teledu<sup>5</sup> – EPGs llinol – yn cael eu trwyddedu a'u rheoleiddio gan Ofcom.<sup>6</sup>
- 1.2 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (“Y Ddeddf”), mae gan Ofcom ddyletswydd i lunio, ac o bryd i'w gilydd adolygu a diwygio, cod sy'n rhoi'r arweiniad y mae'n rhaid i ddarparwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) ei ddilyn (“y Cod”).<sup>7</sup> Rhaid i'r Cod gynnwys gofynion sy'n ymwneud â rhoi'r amlygrwydd y mae Ofcom yn credu sy'n briodol o ran:
  - a) rhestru a/neu hyrwyddo'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys ym mhob sianel gwasanaeth cyhoeddus; ac
  - b) y cyfleusterau sy'n galluogi'r gynulleidfa i ddewis neu i gael mynediad i'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr EPG yn syth o'r EPG (hy gan sicrhau bod swyddogaeth yn yr EPG sy'n galluogi gwylwyr i 'glicio drwyddo' i weld y rhaglen berthnasol).
- 1.3 Mae'r sianeli gwasanaethau cyhoeddus sy'n gymwys i gael amlygrwydd yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: holl sianeli'r BBC; gwasanaethau Channel 3

---

<sup>3</sup> Rhaid i'r rhain gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan bobl ar wahân i ddarparwr y canllaw.

<sup>4</sup> Adran 310(8) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

<sup>5</sup> O fewn ystyr adran 232 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

<sup>6</sup> Ar hyn o bryd nid oes gan Ofcom bŵer i reoleiddio EPGs heb fod yn rhai llinol, er enghraifft y rheini sy'n darparu mynediad at gynnwys fideo ar-alwad

<sup>7</sup> Adran 310 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

(gan gynnwys ITV ac STV); Channel 4; Channel 5; S4C a sianeli teledu lleol.<sup>8</sup> Mae'r gofynion amlygrwydd yn berthnasol i ddarparu rhaglenni ar y sianeli darlledu eu hunain, ac, o'r herwydd, nid ydynt yn berthnasol i gynnwys a ddarperir ar-alwad (er enghraifft, drwy BBC iPlayer neu ITV hub).

- 1.4 Cafodd y Cod ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2004, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n rhaid i ddarparwyr EPG trwyddedig gydymffurfio â'r Cod.<sup>9</sup>
- 1.5 Fel y nodwyd, mae'r Cod yn berthnasol i'r gwasanaethau hynny sy'n darparu EPG llinol, sy'n rhestru ac yn rhoi mynediad at raglenni teledu llinol. Ar hyn o bryd, nid ydy dyfeisiau rhyngwrwyd, fel swyddogaeth rhyngwrwyd fewnol setiau teledu clyfar<sup>10</sup> a dyfeisiau ffrydio (ee Amazon Firestick, Apple TV), yn darparu EPG llinol, ac o'r herwydd mae'r rhain y tu allan i'r cwmpas ar hyn o bryd.

## **Mae gan Ofcom ddyletswydd newydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar EPGs a sianeli gwasanaeth cyhoeddus**

- 1.6 Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017<sup>11</sup> yn ychwanegu dyletswydd at Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a oedd yn mynnu bod Ofcom, o bryd i'w gilydd, yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn delio â:
- a) yr wybodaeth mae cyfeiryddion rhaglenni electronig yn ei darparu am raglenni:
    - i) gan gynnwys ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus, neu
    - ii) sy'n cael eu darparu drwy wasanaethau rhaglenni ar alwad<sup>12</sup> gan bobl sydd hefyd yn darparu sianeli gwasanaeth cyhoeddus, a
  - b) y cyfleusterau a ddarperir gan y cyfeiryddion hyn er mwyn dewis rhaglenni o'r fath a chael mynediad atynt.<sup>13</sup>

---

<sup>8</sup> Adran 310(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae sianeli teledu lleol wedi bod yn gymwys i gael amlygrwydd ar ôl diwygiad a wnaed, i'w roi ar waith o 31 Ionawr ymlaen drwy Orchymyn y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (Ychwanegu Gwasanaethau Rhaglenni) 2011 ((SI 2011/3003)

<sup>9</sup> Mae Cod Ymarfer Ofcom ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar gael yn:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0031/19399/epgcode.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0031/19399/epgcode.pdf). Mae'r term 'darparwr EPG' yn golygu unrhyw sefydliad sy'n darparu cyfeirydd rhaglenni electronig yn unol â diffiniad adran 310 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau o dan drwydded y Ddeddf Darlledu.

<sup>10</sup> Mae teledu clyfar yn golygu set deledu annibynnol sydd â swyddogaethau rhyngwrwyd mewnol. Mae defnyddwyr yn cysylltu â'r rhyngwrwyd drwy fodem neu lwybrydd band eang. Mae gan set deledu clyfar lwyfan mewnol sy'n darparu EPG fel Freeview neu Freesat, ac mae swyddogaethau'r rheini o fewn cwmpas yr adroddiad yma.

<sup>11</sup> Adran 95(2) a (3) o Ddeddf Economi Ddigidol 2017

<sup>12</sup> Caiff gwasanaethau rhaglenni ar-alwad eu diffinio yn adran 368A o'r Ddeddf. Mae gwasanaeth yn wasanaeth rhaglenni ar-alwad os: mai ei brif ddiben ydy darparu rhaglenni y mae eu ffurf a'u cynnwys yn debyg i ffurf a chynnwys rhaglenni sydd fel rheol yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni teledu; mae modd cael gafael arno ar-alwad; mae yna unigolyn sydd â chyfrifoldeb golygyddol drosto; mae ar gael gan yr unigolyn hwnnw i'w ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd; ac mae'r unigolyn hwnnw o dan awdurdodaeth y Deyrnas Unedig at ddibenion y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.

<sup>13</sup> Adran 311A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, wedi'i mewnosod gan adran 95 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017

- 1.7 Rydym wedi ymgynghori â nifer o randdeiliaid wrth baratoi'r adroddiad yma<sup>14</sup>, er mwyn deall yn well y technolegau maen nhw'n eu defnyddio i ddarparu cynnwys, sut mae gwylwyr yn defnyddio'r technolegau hyn i ddod o hyd i gynnwys a'u pryderon ynghylch canfod cynnwys mewn marchnad sy'n newid.
- 1.8 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, a'n hadroddiad ar gyfer y DU i gyd<sup>15</sup>, wedi cyfrannu at ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod, fel y nodir yn ein hymgyngoriad. Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch ymestyn y drefn amlygrwydd i fideo ar-alwad a llwybrau eraill at gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn croesawu mwy o gyfraniadau fel rhan o'n hymgyngoriad. Byddai unrhyw newidiadau i'r drefn yn galw am newidiadau deddfwriaethol, felly bydd ymatebion rhanddeiliaid i'r materion a'r syniadau sy'n ymwneud ag ymestyn y drefn yn cyfrannu at ein hargymhellion i Lywodraeth.

### **Rydym wedi profi argaeledd a hwylustod canfod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys teledu lleol gan y prif ddarparwyr EPG a nifer o ddyfeisiau sydd wedi'u galluogi ar gyfer y rhyngwryd**

- 1.9 Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Economi Ddigidol, rydym wedi cynnal asesiad o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael a pha mor hawdd ydy dod o hyd iddyn nhw (hy y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli teledu lleol hynny sydd â hawl i gael lle amlwg) a chynnwys fideo ar-alwad sy'n cael ei ddarparu gan y darlledwyr hynny ar draws amrywiaeth o lwyfannau a dyfeisiau.
- 1.10 Dyma'r prif ddarparwyr EPG: Sky, Virgin Media, Freesat, YouView, EE, BT, Digital UK (sy'n darparu EPG Freeview) a TalkTalk. Rydym wedi profi argaeledd a hwylustod canfod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys teledu lleol llinol ar gyfer o leiaf un blwch pen-set ar gyfer y darparwyr EPG canlynol, fel y nodir isod:
- Sky: Sky+ HD a SkyQ
  - Virgin Media: Virgin Media TiVO V6
  - Freesat: Freesat Humax
  - Digital UK: Samsung TV gydag Freeview integredig a Humax Freeview Play
  - EE: EE TV
  - YouView: BT YouView<sup>16</sup>

---

<sup>14</sup> Yn unol ag adran 311A(2) o'r Ddeddf (a gyflwynwyd gan adran 95 o'r Ddeddf Economi Ddigidol). Fe wnaethom ofyn am wybodaeth gan / neu roeddem wedi cwrdd â'r rhanddeiliaid canlynol: S4C, Virgin Media, Digital UK, Sky, Viacom, Channel 4 Corporation, STV, ITV, BBC, Local TV Network, YouView, Freesat a COBA. Roeddem hefyd wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y gwledydd.

<sup>15</sup> Amlygrwydd EPG: Adroddiad ynghylch pa mor hawdd ydy dod o hyd i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau teledu lleol: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/epg-prominence>

<sup>16</sup> Sylwch nad ydym wedi profi blychau pen-set gan BT na TalkTalk: Er bod y blwch YouView roeddem wedi'i brofi yn dod gan BT, mae gan BT drwydded ar wahân hefyd gan YouView ar gyfer ei EPG BT Vision. Fodd bynnag, cafodd BT Vision ei ddiffodd ym mis Mehefin 2017 (mae modd i gwsmeriaid cyfredol ddal ati i ddefnyddio'r blwch ar gyfer sianeli teledu daearol digidol). Nid ydy TalkTalk yn gweithredu ei EPG ei hun bellach, gan fod ei sianeli wedi cael eu hintegreiddio i EPG YouView.

- 1.11 Yn ogystal â darparu EPGs, mae pob un o'r dyfeisiau sydd wedi'u rhestru uchod (ac eithrio'r ddyfais Freeview sylfaenol) hefyd yn cynnig mynediad at amrywiaeth o gynnwys fideo ar-alwad. Yn unol â'n dyletswydd o dan y Ddeddf, rydym hefyd wedi profi argaeledd a hwylustod canfod cynnwys ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol ar bob un o'r dyfeisiau a restrir uchod.
- 1.12 Er mwyn bod yn gyflawn, ac er mwyn ystyried y nifer cynyddol o ffyrdd mae pobl nawr yn defnyddio teledu, rydym hefyd wedi adrodd ar argaeledd cynnwys ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol ar nifer y dyfeisiau sydd wedi'u galluogi ar gyfer y rhyngwrwd, gan nodi nad ydy'r amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys pob un o bell ffordd. Y rhain yw:
- Amazon Fire TV
  - Apple TV
  - Now TV
  - Consolau gemau (Microsoft Xbox a Sony PlayStation)

## Rhyngwynebau defnyddwyr a rhestr EPG llwyfannau

- 1.13 Mae canlyniadau ein hasesiad yn datgelu bod argaeledd a hwylustod canfod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli teledu lleol mewn EPG llinol yn gallu amrywio'n sylweddol ar draws y sianeli gwahanol ac ar llwyfannau/blychau pen-set gwahanol.
- 1.14 Rydym yn cyflwyno ein canlyniadau isod, ac rydym wedi grwpio'r sianeli fel a ganlyn:
- a) BBC One, BBC Two, ITV, S4C, Channel 5 a Channel 4
  - b) BBC Four
  - c) Sianeli newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: BBC News a BBC Parliament
  - d) Sianeli plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: CBBC a CBeebies
  - e) Sianeli ardal benodol eraill: BBC Alba a sianeli teledu lleol
- 1.15 Rydym yn nodi bod cynllun a safleoedd cynnwys yn rhyngwynebau defnyddwyr darparwyr EPGs ac yn yr EPGs yn gallu amrywio yn ôl y math o flwch. Er enghraifft, mae rhyngwynebau defnyddwyr Sky+ a Sky Q Sky yn wahanol, ac mae rhai Freeview yn amrywio yn ôl y gwneuthurwr, ac mae nifer y sianeli sy'n cael eu rhestru fesul tudalen EPG yn gallu amrywio. Fodd bynnag, caiff slotiau sianeli eu dyrannu gan ddarparwr y llwyfan, ac nid ydynt yn amrywio yn ôl math o flwch<sup>17</sup>. Pan fyddwn yn cyflwyno slotiau sianeli rydym wedi cyflwyno'r rhain ar gyfer y llwyfannau: Teledu daearol digidol, Freesat, Sky a Virgin Media. Rydym yn nodi bod pob llwyfan, ac eithrio Virgin Media, yn darparu amrywiaethau rhanbarthol neu genedlaethol i'w EPGs.
- 1.16 Drwy'r canlyniadau hyn, rydym yn gyntaf yn ystyried slot sianel y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol ar y prif llwyfannau. Drwy gydol y broses rydym wedi

---

<sup>17</sup> Mae Digital UK yn dyrannu slotiau sianeli ar gyfer pob darparwr teledu daearol digidol

profi slotiau sianeli, ac wedi dilysu'r rhain ar wefannau darparwyr llwyfannau<sup>18</sup>, gan gynnwys lle mae slotiau sianeli yn gallu amrywio yn ôl gwlad/rhanbarth. Rydym wedyn yn ystyried ar ba dudalen y byddid yn dod o hyd i'r sianeli hyn arni yn EPG pob un o'r mathau o flychau roeddem wedi'u profi.<sup>19</sup>

**Yng Nghymru, mae slotiau 1 i 5 (neu 101 i 105) yn cael eu llenwi gan BBC One, BBC Two, ITV, S4C a Channel 5 ar bob llwyfan ac eithrio Virgin Media. Mae Channel 4 yn is i lawr yr EPG ar bob llwyfan ar wahân i Virgin Media, lle mae ar gael yn slot 104.**

- 1.17 Yng Nghymru, ar draws y prif ddarparwyr EPG, ac eithrio Virgin Media, mae slotiau 1 i 5 (neu, pan fydd y rhifau yn dechrau gyda 100 neu 101, 101 i 105) yn cael eu llenwi gan BBC One, BBC Two, ITV, S4C a Channel 5. Ar Virgin Media mae S4C yn slot 166 ar draws y DU i gyd.
- 1.18 S4C oedd y bedwaredd sianel i gael ei lansio yng Nghymru ac yn hanesyddol mae wedi llenwi slot 4. Yn wreiddiol roedd yn darparu cymysgedd o raglenni Cymraeg ynghyd â rhywfaint o raglenni Channel 4. Ar ôl newid i'r digidol,<sup>20</sup> roedd Channel 4 ar gael ar draws Cymru a daeth S4C yn sianel 100% Cymraeg. Cadwodd S4C ei slot ar EPGs a ddarperir i wylwyr yng Nghymru ac mae Channel 4 wedi bod mewn slotiau ymhellach i lawr ar yr EPGs hyn.
- 1.19 Ar bob llwyfan, mae BBC One, BBC Two, ITV a Channel 5 ar gael ar dudalen gyntaf rhestr pob sianel EPGs. Ar bob llwyfan ar wahân i Virgin Media, mae S4C ar dudalen gyntaf rhestr pob sianel EPGs. Ar y blwch TiVo Virgin Media roeddem wedi'i brofi, roedd yn ymddangos ar y degfed dudalen.
- 1.20 Er bod Channel 4 yn llenwi slot 4 neu 104 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yng Nghymru, mae Channel 4 yn sianel 7 ar deledu daearol digidol, sianel 117 ar Sky a sianel 120 ar Freesat. Ar Virgin Media mae'n cadw ei slot yn sianel 104, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 1. Ar draws y blychau roeddem wedi'u profi, daethpwyd o hyd iddi ar o leiaf pedair tudalen gyntaf<sup>21</sup> rhestr pob sianel EPGs, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 2.

**Ffigur 1: Slotiau sianeli'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn ôl llwyfan**

	BBC One	BBC Two	ITV	S4C	Channel 5	Channel 4
<b>Teledu daearol digidol</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>5</b>	<b>7</b>
<b>Freesat</b>	<b>101</b>	<b>102</b>	<b>103</b>	<b>104</b>	<b>105</b>	<b>120</b>

<sup>18</sup> Digital UK ar gyfer sianeli teledu daearol digidol

<sup>19</sup> Ac ystyried bod gwylwyr yn fwy tebygol o wyllo'r enghraifft gyntaf o sianel (boed hynny'n SD neu HD), yn yr ymarfer yma rydym wedi cofnodi'r enghraifft gyntaf o'r sianel berthnasol, os oedd yn cael ei darlledu mewn SD neu HD.

<sup>20</sup> Yng Nghymru roedd y newid i'r digidol wedi digwydd yn 2009 a 2010.

<sup>21</sup> Sylwch fod y rhifau tudalen yn cael eu hamcangyfrif ar sail cynnal y profion yn Llundain.

Sky	101	102	103	104	105	117
Virgin Media	101	102	103	166	105	104

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018

**Ffigur 2: Rhif tudalen S4C a Channel 4 yng Nghymru ar restrï pob sianel yn ôl dyfais<sup>22</sup>**

	S4C	Channel 4
BT YouView	Tudalen 1	Tudalen 2
Freeview	Tudalen 1	Tudalen 1
Freeview Play	Tudalen 1	Tudalen 1
EE TV	Tudalen 1	Tudalen 1
Freesat	Tudalen 1	Tudalen 4
Sky Q	Tudalen 1	Tudalen 3
Sky+	Tudalen 1	Tudalen 3
Virgin Media TiVO V6	Tudalen 10	Tudalen 1

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018. Sylwch fod y rhifau tudalen hyn yn amcangyfrifon ar sail slotiau a safleoedd sianeli a brofwyd yn Llundain.

## At ei gilydd mae BBC Four mewn safle gweddol uchel ar yr EPG

1.21 Ar draws y DU, ar deledu daearol digidol mae BBC Four ar sianel 9, ar Freesat a Virgin Media mae ar sianel 107 ac ar Sky mae ar dudalen 116 (gweler Ffigur 3). Ar draws y rhan fwyaf o'r blychau roeddem wedi'u profi mae naill ai'n ymddangos ar y dudalen gyntaf neu ar yr ail dudalen yn y rhestr o'r holl sianeli. Ar SkyQ mae ar y drydedd dudalen, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.

**Ffigur 3: Slotiau sianel BBC Four yn ôl llwyfan**

Math	BBC Four
Teledu daearol digidol	9
Freesat	107
Sky	116
Virgin Media	107

<sup>22</sup> Sylwch drwy'r adroddiad hwn bod rhifau tudalen yn seiliedig ar y dyfeisiau penodol roeddem wedi'u profi. Bydd rhifau tudalen yn amrywio rhwng gwneuthurwyr a'r math o flwch oherwydd eu bod yn rhestru nifer gwahanol o sianeli ar bob tudalen.



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018.

**Ffigur 4: Rhif tudalen BBC Four ar restrï pob sianel yn ôl dyfais**

Math	BBC Four
BT YouView	Tudalen 2
Freeview	Tudalen 2
Freeview Play	Tudalen 2
EE TV	Tudalen 2
Freesat	Tudalen 1
Sky Q	Tudalen 3
Sky+	Tudalen 2
Virgin Media TiVO V6	Tudalen 1

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018. Sylwch fod y rhifau tudalen hyn yn amcangyfrifon ar sail slotiau a safleoedd sianeli a brofwyd yn Llundain.

## Mae sianeli plant a newyddion y BBC ymhellach i lawr rhestrï pob sianel EPGs gan eu bod yn perthyn i'w grwpiau genre penodol

### Plant

- 1.22 Ar deledu daearol digidol, mae CBBC a CBeebies ar sianeli 201 a 202 y naill a'r llall. Ar Virgin Media maen nhw ar sianeli 701 a 702, ar Freesat maen nhw ar 600 a 601 ac ar Sky maen nhw ar 613 a 614 (gweler Ffigur 5).
- 1.23 Ar Freesat, Virgin Media TiVo a BT YouView mae'r ddwy sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer plant ar dudalen gyntaf y tudalennau genre plant, ac ar Sky+ a Sky Q maen nhw ar yr ail dudalen. Ar Freeview, Freeview Play ac EE TV does dim hidlyddion genre ar gael, felly wrth fynd drwy'r EPG, mae'n rhaid i wylwyr lywio drwy'r rhestrï pob sianel, er bod y sianeli y daethpwyd o hyd iddynt ar frig y grŵp genre (sy'n dechrau ar 201). O'r blychau roeddem wedi'u profi ar Freeview roedd y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer plant ar tua thudalen 13/14, ar Freeview Play roedden nhw ar dudalen rhif 15 ac ar EE TV roedden nhw ar dudalen rhif 10 (gweler Ffigur 6).<sup>23</sup>

**Ffigur 5: Slotiau sianeli plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ôl llwyfan**

Math	CBBC	CBeebies
------	------	----------

<sup>23</sup> Sylwer bod hyn yn seiliedig ar brofion a gynhaliwyd yn Llundain. Dim ond dangosol ydy rhifau'r tudalennau ac efallai eu bod yn amrywio oherwydd bod sianeli gwahanol ar gael mewn gwahanol rannau o'r DU.

Teledu daearol digidol	201	202
Freesat	600	601
Sky	613	614
Virgin Media	701	702

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018

**Ffigur 6: Rhif tudalen sianeli plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy ddewislen plant EPG yn ôl dyfais\***

Math	CBBC	CBeebies
BT YouView	Tudalen 1	Tudalen 1
Freeview	Tudalen 13	Tudalen 14
Freeview Play	Tudalen 15	Tudalen 15
EE TV	Tudalen 10	Tudalen 10
Freesat	Tudalen 1	Tudalen 1
Sky Q	Tudalen 2	Tudalen 2
Sky+	Tudalen 2	Tudalen 2
Virgin Media TiVo V6	Tudalen 1	Tudalen 1

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018. Sylwch fod y rhifau tudalen hyn yn amcangyfrifon ar sail slotiau a safleoedd sianeli a brofwyd yn Llundain.

\*Fel y nodwyd uchod, nid oedd hidlo yn ôl genre ar gael ar y dyfeisiau Freeview, Freeview Play ac EE TV roeddem wedi'u profi, felly mae'r rhifau tudalen sy'n cael eu rhestru ar gyfer y dyfeisiau hyn drwy'r ddewislen pob sianel.

## Newyddion

- 1.24 Ar deledu daearol digidol, mae BBC News a BBC Parliament ar sianeli 231 a 232 y naill a'r llall (mae BBC News hefyd ar 107 mewn HD). Ar Freesat maen nhw ar sianeli 200 a 201, ac ar Virgin Media maen nhw ar 601 a 605, ac ar Sky maen nhw ar sianeli 503 a 504 (gweler Ffigur 7).
- 1.25 Ar y blychau lle mae modd hidlo yn ôl genre, mae BBC News ar frig y rhestr genre newyddion ym mhob achos ar wahân i Sky+ a Sky Q, lle mae'n ymddangos yn y trydydd safle ar y rhestr (er ei bod yn dal ar y dudalen gyntaf). Yn yr un modd, lle mae hidlo yn ôl genre ar gael, mae BBC Parliament yn ymddangos yn gyson ar dudalen gyntaf y rhestr genre newyddion.
- 1.26 Ar gyfer Freeview, Freeview Play ac EE TV (sydd i gyd yn darparu sianeli teledu daearol digidol), lle nad ydy hidlo yn ôl genre ar gael, mae'r sianeli yn ymddangos rhwng tudalen

rhif 11 a rhif 16 y rhestr pob sianel.<sup>24</sup> Fodd bynnag, mae'r sianeli hyn yn llenwi'r ddau slot uchaf yng ngrŵp genre newyddion llwyfan teledu daearol digidol (sy'n dechrau ar 231). Mae slotiau a rhifau tudalen y sianeli ar yr EPGs genre yn cael eu dangos isod.

**Ffigur 7: Slotiau sianeli newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ôl llwyfan**

Math	BBC News	BBC Parliament
Teledu daearol digidol	107/231*	232
Freesat	200	201
Sky	503	504
Virgin Media	601	605

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018

Nodiadau: \*Ar Freeview a YouView, mae sianel HD BBC News ar slot 107 a BBC News SD ar slot 231

**Ffigur 8: Rhif tudalen sianeli newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy ddewislen newyddion EPG yn ôl dyfais\***

Math	BBC News	BBC Parliament
BT YouView	Tudalen 1	Tudalen 1
Freeview	Tudalen 15**	Tudalen 15
Freeview Play	Tudalen 16**	Tudalen 16
EE TV	Tudalen 11***	Tudalen 11
Freesat	Tudalen 1	Tudalen 1
Sky Q	Tudalen 1	Tudalen 1
Sky+	Tudalen 1	Tudalen 1
Virgin Media TiVo V6	Tudalen 1	Tudalen 1

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018. Sylwch fod y rhifau tudalen hyn yn amcangyfrifon ar sail slotiau a safleoedd sianeli a brofwyd yn Llundain.

\*Fel y nodwyd uchod, nid oedd hidlo yn ôl genre ar gael ar y dyfeisiau Freeview, Freeview Play ac EE TV roeddem wedi'u profi, felly mae'r rhifau tudalen sy'n cael eu rhestru ar gyfer y dyfeisiau hyn drwy'r ddewislen pob sianel. \*\*Roedd y fersiwn SD (sianel 231, ar frig y grŵp genre newyddion) ar dudalen 15 ar Freeview ac ar dudalen 16 ar Freeview Play. Roedd y fersiwn HD (sianel 107) ar dudalen 13 ar Freeview ac ar dudalen 14 ar Freeview Play. \*\*\*Nodyn, nid oedd y fersiwn HD (sianel 107) ar gael ar y blwch EE TV roeddem wedi'i brofi, adeg profi, mae'n debyg oherwydd diffyg signal.

<sup>24</sup> Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn ddangosol, ac yn seiliedig ar brofion a gynhaliwyd yn Llundain

## Mae safleoedd BBC Alba a'r sianeli teledu lleol yn yr EPG yn amrywio'n sylweddol yn ôl llwyfan

- 1.27 Mae BBC Alba ar gael ar draws y DU ar Freesat, Sky a Virgin Media. Ar Freesat a Virgin Media mae ar sianel 109 a 161 y naill a'r llall, ar draws y DU. Ar Sky mae ar sianel 169 y tu allan i'r Alban (a 141 yn yr Alban). Nid yw ar gael ar deledu daearol digidol y tu allan i'r Alban. Mae ei lleoliad ar dudalennau EPG y llwyfannau'n amrywio'n sylweddol, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 9.
- 1.28 Ar deledu daearol digidol yng Nghymru, mae sianeli teledu lleol ar gael ar sianel 8. Ar Sky yng Nghymru maen nhw ar gael ar sianel 134, ac ar Virgin Media maen nhw ar gael ar sianel 159 ar draws y DU, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 9.<sup>25</sup> Mae hyn yn golygu ar gyfer y blychau roeddem wedi'u profi, bod rhif tudalen sianeli teledu lleol ar y rhestr pob sianel yn amrywio o dudalen 1 neu 2 (ar EE TV, Freeview, Freeview Play a BT YouView) i dudalen 5 ar Sky+ a Sky Q, a thudalen 9 ar Virgin Media (gweler Ffigur 10).

**Ffigur 9: Slotiau sianeli BBC Alba a Theledu Lleol yn ôl llwyfan yng Nghymru**

Math	BBC Alba*	Teledu Lleol
Teledu daearol digidol	am	8
Freesat	109	amh
Sky	169	134
Virgin Media	161	159

*Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018.*

*Nodiadau: \*Nid yw BBC Alba ar gael ar deledu daearol digidol y tu allan i'r Alban. Mae ei slotiau sianel ar Freesat a Virgin Media ar draws y DU. Mae slot sianel Sky ar gyfer BBC Alba yn 141 yn yr Alban, ac yn 169 ar gyfer gweddill y DU.*

**Ffigur 10: Rhif tudalen BBC Alba a Theledu Lleol ar restrri pob sianel yn ôl dyfais yng Nghymru**

Math	BBC Alba	Teledu Lleol
BT YouView	amh	Tudalen 2
Freeview	amh	Tudalen 2
Freeview Play	amh	Tudalen 2
EE TV	amh	Tudalen 1
Freesat	Tudalen 2	amh

<sup>25</sup> Sylwer nad ydy Teledu Lleol ar gael ym mhob rhan o'r DU, ac ni fydd pob sianel teledu lleol yn cael ei chario ar Sky a Virgin Media. Sylwch nad ydy sianeli teledu lleol ar gael ar Freesat.

Sky Q	Tudalen 10	Tudalen 5
Sky+	Tudalen 9	Tudalen 5*
Virgin Media TiVO V6	Tudalen 9	Tudalen 9

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom. Data a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2018. Sylwch fod y rhifau tudalen hyn yn amcangyfrifon ar sail slotiau a safleoedd sianeli a brofwyd yn Llundain.

Nodiadau: \*Ar Sky+, mae modd cael gafael ar restr teledu lleol hefyd drwy bwysu'r botwm melyn ar y teclyn rheoli o bell o'r rhestr pob sianel, sy'n mynd â gwylwyr yn syth i'r rhestr teledu lleol.

## Argaeledd a hwylustod canfod cynnwys fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol yng Nghymru

- 1.29 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio pa mor hawdd ydy dod o hyd i gynnwys fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a theledu lleol sydd ar gael drwy ddyfeisiau sydd wedi'u galluogi ar gyfer y rhyngwrwyd sydd wedi'u cysylltu â setiau teledu.<sup>26</sup>
- 1.30 Fodd bynnag, nid ydym wedi adrodd ar argaeledd na hwylustod canfod fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar setiau teledu clyfar<sup>27</sup> oherwydd bod amrywiaeth eang o setiau teledu clyfar ar gael yn y farchnad ac mae gan wneuthurwyr lawer o reolaeth dros y ffordd y caiff rhaglenni meddalwedd (gan gynnwys chwaraewyr fideo ar-alwad) eu cyflwyno yn eu dewislenni ar unrhyw adeg benodol. Ar ben hynny, mae'r rhyngwynebaw fideo ar-alwad yn amrywio rhwng modelau gan yr un gwneuthurwr. Rydym yn credu nad ydy adrodd ar wneuthurwr neu fodel penodol yn adlewyrchiad cyflawn o gyflwyno apiau fideo ar-alwad ar setiau teledu clyfar, yn enwedig chwaraewyr fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o setiau teledu clyfar yn cefnogi chwaraewyr y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My 5). Rydym yn credu bod y farchnad setiau teledu clyfar yn rhy amrywiol a chymhleth i'w hadolygu mewn ffordd ystyrlon yn yr adroddiad hwn ac, ar ben hynny, mae hwn yn faes o gymhlethdod technegol a masnachol rhwng gwneuthurwyr a darparwyr chwaraewyr.
- 1.31 Nid ydym chwaith wedi cynnwys dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu fel ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron bwrdd gwaith yn ein hadroddiad oherwydd yr amrywiaeth enfawr o ddyfeisiau a gwneuthurwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus<sup>28</sup> ar gael ar y rhain gan fod modd eu llwytho i lawr ar ddyfeisiau sy'n rhedeg ar systemau gweithredu iOS (Apple) ac Android.

<sup>26</sup> Mae hyn yn cynnwys donglau neu ffrydwyr rhyngwrwyd (ee Apple TV, Amazon Firestick) neu gonsol gemau sydd wedi'i alluogi ar gyfer y rhyngwrwyd.

<sup>27</sup> Mae teledu clyfar yn golygu set deledu annibynnol sydd â swyddogaethau rhyngwrwyd. Mae defnyddwyr yn cysylltu â'r rhyngwrwyd drwy fodem neu lwybrydd band eang.

<sup>28</sup> BBC iPlayer, ITV Hub, All4, My 5, STV a S4C (hefyd ar gael drwy BBC iPlayer)

**At ei gilydd mae chwaraewyr fideo ar-alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus<sup>29</sup> ar gael ar lwyfannau'r prif ddarparwyr gwasanaeth EPG ond dim ond ar YouView mae chwaraewr S4C ar gael. Nid ydym yn gwybod am unrhyw chwaraewyr fideo ar-alwad teledu lleol.**

- 1.32 Mae chwaraewyr fideo ar alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar lwyfannau'r prif ddarparwyr gwasanaeth EPG ar wahân i EE TV sydd ond yn dangos BBC iPlayer a Chwaraewr My5 a Freesat, nad yw'n cynnwys All4. Maent hefyd ar gael ar amrywiaeth eang o ffrydwy'r cyfryngau rhyngryd fel Amazon Fire TV, Apple TV a chonsolau gemau fel Microsoft Xbox a Sony PlayStation. Mae Ffigur 11 yn dangos argaeledd chwaraewyr ar-alwad darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y dyfeisiau roeddem wedi edrych arnynt.
- 1.33 Rydym yn nodi, yn wahanol i sianeli llinol, bod argaeledd chwaraewyr fideo ar-alwad ar lwyfannau yn amodol ar gytundebau masnachol.
- 1.34 Er bod modd cael gafael ar gynnwys ar-alwad S4C drwy'r BBC iPlayer, dim ond ar YouView mae ei Chwaraewr ar-alwad ei hun ar gael, chwaraewr S4C.<sup>30</sup>
- 1.35 Nid oes dim sianeli teledu lleol â chwaraewyr/apiau ar-alwad.<sup>31</sup>

**Ffigur 11: Argaeledd chwaraewyr fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws dyfeisiau gwahanol**

Dyfais	BBC iPlayer	ITV Hub	All 4	My 5	Chwaraewr S4C
Freeview Play	✓	✓	✓	✓	✗
Freesat	✓	✓	✗	✓	✗
YouView	✓	✓	✓	✓	✓
Virgin Media	✓	✓	✓	✓	✗
Sky Q	✓	✓	✓	✓	✗
Sky+ HD	✓	✓	✓	✓	✗
EE TV	✓	✗	✗	✓	✗
Amazon Fire TV	✓	✓	✓	✓	✓

<sup>29</sup> Pan fyddwn yn sôn am chwaraewyr fideo ar-alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn golygu BBC iPlayer, ITV Hub, All4 a My5. Rydym hefyd yn nodi efallai fod chwaraewyr fideo ar-alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn darparu cynnwys o rai o'u sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus llai hefyd, felly nid ydynt yn cyfateb i'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r chwaraewyr fideo ar-alwad darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol hefyd yn darparu cynnwys o'u sianeli portffolio, nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel ITV2, E4 neu 5star.

<sup>30</sup> Mae gan YouView un dudalen o Chwaraewr ar ôl dewis yr opsiwn hwn, mae chwaraewr S4C yn ymddangos ar y dudalen hon.

<sup>31</sup> Mae gan rai gorsafoedd teledu lleol, er enghraifft NVTV (Belfast) a Notts TV (Nottingham) gynnwys dal-i-fyny ar gael ar eu gwefannau.


Apple TV	✓	✓	✗	✓	✓
Now TV	✓	✓	✓	✓	✗
Consolau Xbox <sup>32</sup>	✓	✓	✓	✓	✗
Consolau Play Station <sup>33</sup>	✓	✗	✓	✓	✗

Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, data a gasglwyd ym mis Mai 2018

## Ar ôl cyrraedd y gofod fideo ar-alwad, mae hi'n hawdd canfod chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfan teledu y prif ddarparwyr gwasanaeth EPG.

- 1.36 Mae'r amser mae'n ei gymryd i fynd o'r hafan i chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amrywio o un llwyfan i'r llall, ar gyfer y dyfeisiau roeddem wedi'u profi gan y prif ddarparwyr EPG. Fodd bynnag, roedd chwaraewyr fideo ar-alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, pan roeddent ar gael, ar res uchaf grid y chwaraewyr fideo ar-alwad ac felly mae hi'n hawdd dod o hyd iddyn nhw yn y gofod fideo ar-alwad.

**Ffigur 12: Hwylustod canfod chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar ôl dewis yr opsiwn dewislen ar-alwad ar draws llwyfannau gwahanol**



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, data a gasglwyd ym mis Mai 2018

- 1.37 Mae Ffigur 12 yn disgrifio hwylustod canfod chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar amrywiaeth o lwyfannau. Ar FreeviewPlay, Freesat ac YouView, caiff chwaraewyr ar-alwad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu cyflwyno ar y blaen (fel rhan o is-grid ar y chwaraewyr ar-alwad sy'n cael eu cynnal gan y llwyfan) ar ôl amlygu a chyn dewis yr opsiwn ar-alwad. Mae chwaraewyr y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymddangos ar frig yr is-grid yma. Ar ôl dewis yr opsiwn ar-alwad yn y ddewislen, mae chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cadw eu safleoedd amlwg yn y grid o

<sup>32</sup> Rydym wedi tybio bod consol gemau yn gallu delio â chwaraewyr fideo ar-alwad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus os oes o leiaf un genhedlaeth o'r consol yn gallu gwneud hynny.

<sup>33</sup> Rydym wedi tybio bod consol gemau yn cefnogi chwaraewr fideo ar-alwad PSB os oes o leiaf un genhedlaeth o'r consol yn gallu gwneud hynny.

chwaraewyr. Mae FreeviewPlay yn caniatáu i ddefnyddwyr ddewis chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'i hafan.

- 1.38 Ar Virgin Media TV, mae angen clicio ychydig mwy o weithiau o'r hafan dal-i-fyny cyn dod o hyd i chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn y grid o chwaraewyr fideo ar-alwad, mae chwaraewyr fideo ar-alwad y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymddangos ar y rhes uchaf.
- 1.39 Ar EE TV, ar ôl i wylwyr gyrraedd y gofod fideo ar-alwad, mae chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael (BBC iPlayer a My5) i'w gweld ar unwaith ac yn cael eu rhestru ar y rhes gyntaf. Nid ydy ITV Hub na All4 ar gael.
- 1.40 Ar Sky+ HD, mae chwaraewyr y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu rhestru ar res uchaf y grid o chwaraewyr fideo ar-alwad ar yr hafan teledu dal-i-fyny. Mae Sky Q yn cyflwyno ei chwaraewyr fideo ar-alwad mewn ffordd wahanol i llwyfannau eraill. Mae'n defnyddio disgrifiad testun o'r chwaraewr fideo ar-alwad heb ddangos logos brand. Mae chwaraewyr y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu rhestru ychydig o dan y ddolen at gynnwys "Featured" Sky.
- 1.41 Ar ffrydwyr rhyngwrwyd, mewn rhai achosion mae chwaraewyr y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu llwytho ar ddyfais ymlaen llaw, ond ar rai eraill, mae modd i ddefnyddwyr eu llwytho i lawr. Ar ben hynny, ar rai dyfeisiau mae hi'n bosibl newid trefn yr apiau ar ddewislenni, ac i rai, mae'r drefn yn dibynnu ar yr apiau sydd wedi cael eu defnyddio yn fwyaf diweddar.

## **Mae argymhellion nawr yn gyffredin ar draws pob llwyfan**

- 1.42 Mae blychau pen-set y rhan fwyaf o ddarparwyr EPG yn rhoi argymhellion i ddefnyddwyr, fel y mae'r llwyfannau drwy fand eang yn eu gwneud fel Amazon Prime a Netflix. Mae'r llwyfannau'n amrywio o ran faint o argymhellion ar y sgrin maen nhw'n eu darparu. Er bod gan rai eitemau dewislen penodol ar gyfer argymhellion fel Freeview Explore gan FreeviewPlay a Showcase gan Freesat, mae eraill yn cyflwyno niferoedd gwahanol o argymhellion ar y sgrin (o ran nifer a faint o le ar y sgrin sy'n cael ei lenwi gyda'r rhain) wrth i ddefnyddwyr lywio drwy'r eitemau dewislen wrth ddewis pa raglen i'w gwyllo.
- 1.43 Fel rheol mae'r argymhellion yn deils lluniau sy'n disgrifio'r rhaglen gyda'r teils mwyaf yn cael eu cadw ar gyfer rhaglenni mae gweithredwyr y llwyfannau eisiau eu hyrwyddo yn fwy na rhai eraill. Mae rhai llwyfannau hefyd yn cadw rhai slotiau sianel ar gyfer rhagflas, clipiau o ffilmiau ac uchafbwyntiau cyffredinol/chwaraeon y maen nhw eisiau eu hyrwyddo, er enghraifft, sianel rhagflas Virgin Media a BT Sport Showcase BT TV. Sianel argymhellion Virgin Media ydy'r cyntaf yn ei restr EPG (slot 100).
- 1.44 Gwelsom fod llwyfannau at ei gilydd yn darparu argymhellion yn seiliedig ar y cynnwys maen nhw'n ceisio ei hyrwyddo yn ogystal ag arferion gwyllo'r defnyddiwr. Pan fydd yn seiliedig ar y cyntaf, mae'r argymhellion ar gael i bob defnyddiwr ond pan fydd yn seiliedig ar yr ail, maen nhw'n tueddu i fod yn rhai personol. Roedd rhai enghreifftiau o eitemau dewislen wedi'u hargymell a welsom ar draws y llwyfannau yn cynnwys "Freeview Explore" (FreeviewPlay), "Showcase" (Freesat), "Featured a Top Picks" (Sky a Sky Q), "Virgin



Exclusives” (Virgin Media TV) a “Recommended for you” (BBC iPlayer). Roedd rhai llwyfannau hefyd yn darparu argymhellion ar sail poblogrwydd neu ddefnydd cyffredinol er enghraifft, dewislen argymhellion “Trending” ar Virgin Media.

### **Er bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn gyffredinol ar y rhan fwyaf o ddewislenni argymhellion y prif ddarparwyr EPG, roedd y llwyfannau teledu am ddim yn tueddu i gynnig mwy o argymhellion darlledu gwasanaeth cyhoeddus o’u cymharu â’r llwyfannau teledu drwy dalu.**

- 1.45 Er bod y rhan fwyaf o’r prif ddarparwyr EPG yn cynnwys rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu hargymhellion, gwelsom fod nifer yr argymhellion yn amrywio ar draws y llwyfannau.
- 1.46 Roedd y nifer yn tueddu i gyfateb i amlygrwydd chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel sy’n cael ei ddisgrifio yn Ffigur 12 uchod. Ar sail cipolwg o rai o’r argymhellion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a oedd ar gael ar draws y llwyfannau, fe welsom fod y llwyfannau teledu am ddim (FreeviewPlay a Freesat) yn cynnwys mwy o raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol wedi’u rhestru yn eu dewislenni argymhellion. Nid oedd cymaint ar y llwyfannau teledu drwy dalu (Virgin Media, Sky a Now TV). Mewn rhai achosion, mae presenoldeb darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn argymhellion yn dibynnu ar gytundebau masnachol rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr y llwyfan.

## **Y camau nesaf**

### **Mae'r adroddiad hwn wedi bwydo i mewn i ymgynghoriad Ofcom ynghylch y Cod**

- 1.47 Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi cyfrannu at ddiwygiadau arfaethedig i’r Cod, fel y nodir yn ein hymgyngoriad. Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch yr egwyddorion a’r syniadau a allai fod yn sail i unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gallai’r Senedd eu gwneud i’r drefn statudol, er mwyn cynnal amlygrwydd cynnwys a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd unrhyw newidiadau i’r drefn amlygrwydd yn galw am newidiadau deddfwriaethol, felly bydd ymatebion rhanddeiliaid i’r materion a godir ynghylch dyfodol y drefn yn cyfrannu at ein hargymhellion i Lywodraeth. Mae’r ymgynghoriad ar agor tan 2 Hydref 2018 ac mae ar gael ar y wefan: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/epg-code-prominence-regime>
- 1.48 Fel rhan o’n dyletswydd o dan y Ddeddf Economi Ddigidol, byddwn yn diweddarau'r adroddiad hwn o bryd i’w gilydd.